PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

Y CYNGOR

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am 09.30 ar 07 EBRILL 2017, ym MedRus 1, Penbryn.

Yn bresennol: Syr Emyr Jones Parry, Canghellor (Cadeirydd, ar wahân i gofnodion 88.1 ac 88.2); Ms Gwerfyl Pierce Jones, Dirprwy Ganghellor (Cadeirydd, ar wahân i gofnodion 88.1 ac 88.2); Dr Timothy Brain, Trysorydd; Yr Athro Elizabeth Treasure, Is-Ganghellor; Ms Rebecca Davies, Dirprwy Is-Ganghellor (Prif Swyddog Gweithredu) (ar wahân i gofnod 83); Yr Athro John Grattan, Dirprwy Is-Ganghellor (Profiad Myfyrwyr a Rhyngwladol) (ar wahân i gofnod 83); Dr Rhodri Llwyd Morgan, Dirprwy Is-Ganghellor (Y Gymraeg a Diwylliant Cymru, a Chysylltiadau Allanol) (ar wahân i gofnod 83); Yr Athro Chris Thomas, Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil) (ar wahân i gofnod 83); Mr George Ashworth; Ms Anne Davies (ar y ffôn, tan gofnod 84); Mr Keith Evans (ar y ffôn, ar gyfer cofnodion 79 i 82); Mr Richard John; Mr Ian MacEachern; Dr Emyr Roberts; Dr Hazel Davey; Yr Athro Neil Glasser; Dr Jenny Mathers; Ms Jackie Sayce; Mr Rhun Dafydd, Llywydd UMCA; a Ms Lauren Marks, Llywydd Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth.

Yn gweinyddu: Mr Daniel Benham, Y Cyfarwyddwr Cyllid (tan gofnod 87); Mrs Kim Broom, Pennaeth Swyddfa'r Is-Ganghellor; Ms Susan Chambers, Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol (tan gofnod 84); Mrs Lucy Hodson, Cyfarwyddwr Cynllunio tan gofnod 85); Mrs Esther Prytherch, Pennaeth y Swyddfa Gyfathrebu; Mr Geraint Pugh, Ysgrifennydd y Brifysgol; a Bethan Owen, Cyfarwyddwr Ymgysylltiad Sefydliadol y Cyngor Cyllido.

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Mrs Elizabeth France, Dirprwy Ganghellor; Mrs Janet Davies; a'r Gwir Anrhydeddus Elfyn Llwyd.

72. MATERION PERSONOL A GODWYD GAN Y CADEIRYDD

1. Cydymdeimlad

   Mynegwyd cydymdeimlad yn dilyn marw'r canlynol:

   1. Yr Athro J P Clancy, Cymrawd er Anrhydedd yn y Brifysgol;

   2. Dr Sandra Pierre, Technegydd Cemeg Ddadansoddol a Metabolomeg, IBERS;

   3. Yr Arglwydd Gwilym Prys-Davies, Cymrawd er Anrhydedd yn y Brifysgol; a

   4. Syr Aubrey Trotman-Dickenson, cyn Bennaeth Cemeg ym Mhrifysgol Aberystwyth (PA), a chyn Is-Ganghellor Prifysgol Cymru.

2. Croeso

   Croesawyd yr Athro Elizabeth Treasure i'w chyfarfod cyntaf o'r Corff Llywodraethu ers iddi ddechrau yn swydd Is-Ganghellor y Brifysgol ar 03 Ebrill 2017. Croesawyd Cyfarwyddwr Ymgysylltiad Sefydliadol y Cyngor Cyllido i'r cyfarfod hefyd.

3. Gwerthfawrogiad

   Mynegodd y Cyngor ddiolch i'r Athro John Grattan am ei waith ar ran PA yn y swydd Is-Ganghellor Dros Dro rhwng 01 Chwefror 2016 ac 02 Ebrill 2017.

4. Llongyfarchiadau

Llongyfarchwyd Daniel Benham ar ei benodi'n Gyfarwyddwr Cyllid ym Mhrifysgol Canol Sir Gaerhirfryn. Bydd yn parhau'n Gyfarwyddwr Cyllid PA tan ddiwedd mis Mehefin 2017.

5. Llywodraeth Cymru

Ar 07 Mawrth 2017, cyfarfu Cadeirydd y Cyngor ag Ysgrifennydd Addysg Cabinet Llywodraeth Cymru i drafod datblygiadau yn y Brifysgol.

6. Cworwm

1. Yn unol ag Ordinhad 15, y cworwm angenrheidiol ar gyfer cyfarfodydd y Cyngor yw hanner aelodau gwirioneddol y corff llywodraethu i'r rhif crwn nesaf i fyny, cyhyd â bod yr aelodau annibynnol yn y mwyafrif.

2. Oherwydd nifer yr ymddiheuriadau a dderbyniwyd, nid oedd yr aelodau annibynnol yn y mwyafrif ac felly nid oedd cworwm i'r cyfarfod. Yn unol â Rheol Sefydlog 9.1, byddai materion y cyfarfod yn cael eu cyflawni ar sail gynghorol tan y ceid cworwm.

73. GWRTHDARO BUDDIANNAU

Ni chafwyd datganiad ynglŷn â gwrthdaro buddiannau yng nghyswllt y materion i'w trafod yn ystod y cyfarfod.

74. CYFRIFOLDEBAU'R CYNGOR YNG NGHYSWLLT CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH

DERBYNIWYD

1. Cyflwyniad gan y Cyfarwyddwr Cydraddoldeb a Moeseg;

2. Copi o gyhoeddiad yr Uned Her Cydraddoldeb: 'Governing bodies, equality and diversity – a handbook for governors of Welsh higher education institutions' (COU1617-116).

NODWYD

3. Dosbarthodd y Cyfarwyddwr Cydraddoldeb gyhoeddiad yr Uned Her Cydraddoldeb, soniodd am y cynnydd a wnaed gan PA yng nghyswllt cydraddoldeb ac amrywiaeth dros y flwyddyn ddiwethaf, ac amlinellodd yr hyn a ddisgwylir gan y corff llywodraethu yn hyn o beth. Byddai Cynllun y Brifysgol ar gyfer Gweithredu Cydraddoldeb yn cael ei ystyried ar wahân ar agenda'r cyfarfod.

75. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

DERBYNIWYD

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Chwefror 2017 (COU1617-080).

CYNGHORWYD

Cadarnhau bod y cofnodion yn gywir.

76. MATERION YN CODI O'R COFNODION

DERBYNIWYD

Cofnodydd yn nodi'r cynnydd a wnaed wrth symud yn eu blaen y penderfyniadau a'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt yng nghyfarfod diweddaraf y Cyngor, ac unrhyw gamau na chawsant eu cyflawni o gyfarfodydd blaenorol (COU1617-081).

NODWYD

Y diweddariad a ddarparwyd yn y cofnodydd penderfyniadau.

77. GOHEBIAETH

1. Llythyr oddi wrth CCAUC

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol, yn ymgorffori llythyr dyddiedig 22 Mawrth 2017 a dderbyniwyd gan yr Is-Ganghellor Dros dro oddi wrth Brif Weithredwr y Cyngor Cyllido (COU1617-082).

NODWYD

1. Ystyriwyd y llythyr gan y Pwyllgor Cyllid a Strategaeth yn ei gyfarfod ar 24 Mawrth 2017 lle cynigiwyd y dylai Cadeirydd y Cyngor, y Trysorydd a'r darpar Is-Ganghellor gyfarfod â Chadeirydd a Phrif Weithredwr CCAUC i drafod y llythyr ymhellach. Roedd hyn yn awr yn cael ei drefnu gan fod yr Athro Elizabeth Treasure wedi dechrau yn ei swydd yn Is-Ganghellor PA.

2. Mae'r Pwyllgor Enwebiadau yn rhoi ystyriaeth i sgiliau a phrofiadau'r unigolion a gafodd eu cynnig i'r Cyngor i'w penodi ar y corff llywodraethu ei hun neu ar un o'i is-bwyllgorau.

78. ENNYD IECHYD A DIOGELWCH

NODWYD

Byddai ymgyrch fewnol yn dechrau cyn bo hir i roi gwybod am Bolisi Teithio diwygiedig y Brifysgol a gafodd ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd. Mae'r Polisi diwygiedig yn defnyddio canlyniadau Archwiliad Mewnol o arferion blaenorol yng nghyswllt teithio, a bydd yn rhoi manteision llawer ehangach i'r Brifysgol na diogelwch yn unig. Bydd copi o adroddiad yr Archwiliad Mewnol yn cael ei ddarparu i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Archwilio a Risg (**GWEITHREDU:** Dirprwy Is-Ganghellor (Prif Swyddog Gweithredu);

79. ADRODDIAD YR IS-GANGHELLOR

NODWYD

1. Yn ystod ei hwythnos gyntaf yn y swydd, roedd yr Athro Elizabeth Treasure wedi canolbwyntio ar gyfarfod cynifer o staff, myfyrwyr a chynrychiolwyr y gymuned â phosibl. Roedd hyn wedi cynnwys cynnal pedwar cyfarfod staff, a mynd i gyfarfod o Gyngor Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth.

2. Pan fydd y Cyngor wedi cymeradwyo'r Cynllun Gweithredu Cynaliadwyedd, mae'r Is-Ganghellor yn bwriadu dechrau gwaith ar Gynllun Strategol nesaf y sefydliad. Daw'r Cynllun cyfredol i ben ar ddiwedd 2017, a'r bwriad yw datblygu cynigion ar gyfer cyfnod nesaf datblygiad strategol y sefydliad erbyn diwedd y flwyddyn galendr.

3. Roedd PA wedi dod i'r ail safle yn y categori 'Rhyngwladol' yn ystod Gwobrau Dewisiadau Myfyrwyr *WhatUni* am 2017. Enwebwyd y Brifysgol mewn pump o gategorïau i gyd, a chyhoeddwyd enwau'r buddugwyr ar 06 Ebrill, 2017.

80. ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR CYNLLUNIO

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cynllunio (COU1617-083).

NODWYD

1. Er bod y Brifysgol yn dal i dderbyn ceisiadau israddedig amser llawn Cartref/UE am fynediad ym mis Medi 2017, mae PA nawr yn canolbwyntio ei sylw ar drosi'r ceisiadau a gafwyd eisoes yn dderbyniadau. Byddai darlun cliriach o lwyddiant y Brifysgol yn yr ymgyrch drosi ar gael ar ôl dyddiad cau UCAS ar gyfer ymateb, ar 05 Mai 2017.

2. Ystyriodd yr aelodau record hanesyddol y Brifysgol yn trosi ceisiadau a'r tactegau a ddefnyddir bellach gan sefydliadau sy'n gystadleuwyr. Pwysleisiwyd pwysigrwydd creu pecyn mor ddeniadol â phosibl o'r hyn y gall PA ei gynnig i ddarpar-fyfyrwyr.

3. Yr wythnos ganlynol, byddai Arolwg Cenedlaethol y Myfyrwyr yn cau. Roedd y Brifysgol yn fodlon â graddfa'r ymateb hyd yn hyn, a oedd yn uwch na'r meincnod ac yn uwch na gweddill y sector.

4. Bwriadai'r Is-Ganghellor ddatblygu Strategaeth Ryngwladol ddiwygiedig, a fyddai'n cynnwys rhoi mwy o gyhoeddusrwydd rhyngwladol i raglenni uwchraddedig y Brifysgol a ddysgir trwy gyrsiau.

81. ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR CYLLID

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyllid (COU1617-084).

NODWYD

1. Er y rhagwelir y bydd cyfanswm incwm blwyddyn academaidd 2016-17 ychydig yn anffafriol i'r gyllideb, disgwylir i'r llinell waelodol ddod o fewn i'r gyllideb o ganlyniad i arbedion effeithlonrwydd pellach a dargedwyd.

2. Roedd mantolen wannach yn cael ei rhagweld am fis Gorffennaf 2017, yn bennaf oherwydd rhagamcan y cynnydd yn nyledion Cynllun Pensiwn ac Aswiriant Prifysgol Aberystwyth. Bwriedir cynnal gwerthusiad o Gynllun Pensiynau'r Prifysgolion yn ystod 2017, a disgwylir y bydd hyn yn effeithio ar fantolen pob prifysgol sy'n cymryd rhan yn y Cynllun hwnnw. Ond, roedd rhwymedigaethau o'r fath yn cael eu hadrodd yn unol â gofynion Safonau Adrodd Cyllidol (FRS) 102, ac ni fyddent yn effeithio ar sefyllfa arian y Brifysgol.

3. Roedd y gwaith o ddatblygu fframwaith i'r gyllideb am 2017-18 yn symud yn ei flaen, a chyllideb ddiffyg pellach yn cael ei chynllunio. Roedd pob deiliad cyllideb yn awr wedi cytuno ar eu targedau ac yn datblygu eu cyllidebau arfaethedig am y flwyddyn.

4. Ar 24 Mawrth 2017, roedd y PCS wedi gwahodd Gweithrediaeth y Brifysgol i adolygu'r model mwyaf effeithiol ar gyfer Canolfan y Celfyddydau, gan ystyried cyngor a dderbyniwyd gan Gyngor Celfyddydau Cymru.

82. CYNLLUN TRAWSNEWID / CYNLLUN GWEITHREDU CYNALIADWYEDD

1. <u>Drafft y Cynllun Gweithredu Cynaliadwyedd</u>

   DERBYNIWYD

Adroddiad gan Weithrediaeth y Brifysgol, yn cynnwys drafft cychwynnol o'r Cynllun Gweithredu Cynaliadwyedd 2017-22 (COU1617-108).

NODWYD

1. Roedd Gweithrediaeth y Brifysgol yn gweithio i ddatblygu'r Cynllun Gweithredu Cynaliadwyedd (CGC) erbyn 30 Ebrill 2017. Byddai hwn yn esblygiad o'r Cynllun Trawsnewid cyfredol, a byddai'n cyflwyno agwedd strategol tuag at greu Prifysgol barhaol, gynaliadwy, gystadleuol ar gyfer y dyfodol.

2. Trafododd yr aelodau agweddau ar ddrafft y CGC a oedd wedi'i gylchredeg er mwyn cael sylwadau, a rhoi arweiniad i'r Is-Ganghellor a Gweithrediaeth y Brifysgol ar gyfer y fersiwn nesaf. Cafodd ei gydnabod bod angen diwygio ffurf y drafft i osgoi bod yn ailadroddus, a symud llawer o'r manylion i gyfres o atodiadau.

3. Byddai'r Is-Ganghellor yn cyflwyno gweledigaeth a strategaeth a fyddai'n cwmpasu'r manylion gweithredu. Byddai'r weledigaeth yn canolbwyntio ar ddatblygiad strategol PA yn y tymor byr, a byddai hyn yn ei dro yn cynnal datblygiad i'r dyfodol yn rhan o weledigaeth a strategaeth ar wahân, fwy hirdymor.

CYNGHORWYD

4. Gwahodd yr Is-Ganghellor i gyflwyno fersiwn ddiwygiedig o'r Cynllun Gweithredu Cynaliadwyedd, gan ystyried y sylwadau a'r arweiniad a roddwyd gan y corff llywodraethu (**GWEITHREDU:** yr Is-Ganghellor).

5. Sefydlu is-grŵp i gadw golwg ar ddatblygiad y CGC a chytuno ar argymhelliad ar gyfer y corff llywodraethu a fyddai'n cael ei ystyried trwy ohebiaeth cyn 30 Ebrill 2017. Aelodau'r is-grŵp fyddai: Cadeirydd y Cyngor, y Trysorydd, Dr Emyr Roberts, yr Is-Ganghellor, a'r Dirprwy Is-Ganghellor (Prif Swyddog Gweithredu) (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).

6. Y dylai Cadeirydd y Cyngor, y Trysorydd neu'r Is-Ganghellor fod ar gael i ateb unrhyw gwestiynau gan aelodau'r Cyngor ynglŷn â fersiwn y CGC sydd wedi'i gylchredeg i'w gymeradwyo. Ond, dylid hefyd nodi cyfle i'r corff llywodraethu gyfarfod pe byddai angen yn ystod yr wythnos yn dechrau 24 Ebrill 2017 (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).

7. Gwahodd yr Is-Ganghellor i gychwyn unrhyw brosesau sy'n cael eu hystyried yn briodol er mwyn cyflawni'r CGC ar ôl cytuno arno, mewn ymgynghoriad â'r is-bwyllgorau sydd â rhan allweddol yn y prosesau ac ar ôl cael eu cymeradwyaeth (**GWEITHREDU:** yr Is-Ganghellor).

2. <u>Sefyllfa ddiweddaraf y Cynllun Trawsnewid</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Dirprwy Is-Ganghellor (Prif Swyddog Gweithredu); a'r Cyfarwyddwr Cynllunio (COU1617-085).

NODWYD

Roedd yr adroddiad yn rhoi: darlun o amserlen y Cynllun Trawsnewid; manylion diweddaraf yr hyn a gyflawnwyd hyd yn hyn; amcan o'r ffordd y byddai'r Cynllun yn ei gyflwr presennol yn esblygu'n Gynllun Gweithredu Cynaliadwyedd.

83. CYMERADWYO PENDERFYNIADAU'N FFURFIOL

PENDERFYNWYD

Gan fod cworwm yn bresennol, y dylai'r materion a gwblhawyd eisoes ar sail ymgynghorol gael eu cymeradwyo'n ffurfiol, sef cofnodion: 75; ac 82.1.4 to 82.1.7.

84. STRATEGAETH UWCHRADDEDIG

DERBYNIWYD

Drafft o strategaeth gan Bennaeth Ysgol y Graddedigion; Cyfarwyddwr yr Athrofa Datblygu Proffesiynol; a'r Cyfarwyddwr Cynllunio (COU1617-086).

NODWYD

1. Arweiniwyd y gwaith o baratoi'r drafft gan rai a chanddynt gyfrifoldeb am y ddarpariaeth uwchraddedig yn yr Athrofeydd, ac fe fyddai'n rhoi PA mewn sefyllfa i gynyddu ei darpariaeth uwchraddedig ac ar yr un pryd fabwysiadu model gynaliadwy wrth ei chyflenwi yng ngoleuni fframwaith ffioedd ar gyfer astudio uwchraddedig.

2. Ystyriwyd y Strategaeth ddrafft gan y Pwyllgor Cyllid a Strategaeth ar 03 Chwefror 2017, ac ar ôl hynny gan y Senedd ar 22 Mawrth 2017. Argymhellodd aelodau'r ddau bwyllgor y dylai'r Cyngor gymeradwyo'r Strategaeth, yn amodol ar fân ddiwygiadau.

3. Awgrymodd yr aelodau y dylid bod yn ofalus yn y dyfodol i beidio â gor-ganolbwyntio ar broses wrth ddatblygu strategaethau i'r Brifysgol. Yn hytrach na hynny, dylid cael gwell gwahaniaethu rhwng y strategol, y gweithredol a'r tactegol.

CYNGHORWYD

4. Cymeradwyo drafft y Strategaeth Uwchraddedig (**GWEITHREDU:** Cyfarwyddwr Cynllunio).

85. CAMPWS YMCHWIL AC ARLOESEDD ABERYSTWYTH

DERBYNIWYD

1. Adroddiad gan y Dirprwy Is-Ganghellor (Prif Swyddog Gweithredu) (COU1617-087); ac

2. Adroddiad diweddaru gan y Dirprwy Is-Ganghellor (Prif Swyddog Gweithredu) (COU1617-115).

NODWYD

3. Er mwyn cael y caniatâd cynllunio angenrheidiol, roedd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn gofyn i'r Brifysgol ddod i gytundeb Adran 106 o dan Ddeddf Cynllunio Cyngor a Thref 1990. Yn rhan o'r cytundeb byddai PA yn dirprwyo defnydd o'i thiroedd fel y gellid lledu rhan o'r ffordd rhwng Campws Gogerddan a'r A4159.

4. Byddai dirprwyo'r tir dan sylw yn gyfystyr â'i waredu a byddai angen i'r corff llywodraethu gaffael cyngor cyfreithiol a phrisiadau cyn cymeradwyo'r 'gwaredu'. Ar ben hyn, oherwydd bod y tir yng Ngogerddan wedi'i waddoli i'r Brifysgol, byddai angen cymeradwyaeth gan y Comisiwn Elusennau cyn ei 'waredu'.

CYNGHORWYD

5. Sefydlu is-grŵp i ystyried y cyngor cyfreithiol a'r prisiadau yn fanwl, yn ogystal â phenawdau'r telerau ar gyfer cytundeb Adran 106, ac i gytuno ar argymhelliad i'w roi i'r corff llywodraethu ynglŷn â symud ymlaen (**GWEITHREDU:** Dirprwy Is-Ganghellor (Prif Swyddog Gweithredu).

6. Os gwneir argymhelliad gan yr is-grŵp ymlaen llaw dipyn cyn cyfarfod nesaf y Cyngor, y dylai Cadeirydd y Cyngor ystyried yr argymhelliad hwnnw ar ran y corff llywodraethu (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).

86. YR HEN GOLEG

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Dirprwy Is-Ganghellor (Y Gymraeg a Diwylliant Cymru, a Chysylltiadau Allanol) (COU1617-088).

NODWYD

1. Yn ystod yr ymweliad â'r safle ar 17 Chwefror 2017, awgrymodd cynrychiolwyr o Gronfa Dreftadaeth y Loteri y dylai PA ddiwygio adran costau'r prosiect yn y cais am gyllid, i gynnwys cyllidebau i ddibenion gwerthuso, yn ogystal â hyfforddi a chostau gwirfoddolwyr. Pe caent eu cymeradwyo, byddai'r costau hyn yn cael eu rhannu'n gyson ar draws y penawdau incwm a chodi arian o fewn i gyllideb arfaethedig y prosiect.

2. Cafwyd adborth gan Gronfa'r Loteri hefyd ynglŷn â chynnwys cyfran ar gyfer rheoli prosiect. Byddai cynnwys symiau o'r fath yng nghyllideb prosiect yr Hen Goleg yn ddamcaniaethol, gan fod cyflogau staff eisoes wedi'u cynnwys yng nghyllideb PA ei hun. Byddai diwygio cyllideb y prosiect i gynnwys y 'cyfraniad mewn gwasanaethau' felly yn elfen gyflwyniadol yn unig i fodloni'r Gronfa.

CYNGHORWYD

3. Y dylai geiriad yr adroddiad fynegi'n glir a oedd arian ar gyfer rheoli'r prosiect yn gyflwyniadol yn unig neu'n ychwanegol i ddarpariaeth bresennol y gyllideb, cyn i fersiwn ddiwygiedig gael ei chyflwyno i Gadeirydd y Cyngor, er mwyn ystyried yr holl ddiwygiadau i gyllideb y prosiect ar ran y corff llywodraethu (**GWEITHREDU:** Dirprwy Is-Ganghellor (Y Gymraeg a Diwylliant Cymru, a Chysylltiadau Allanol)).

87. POLISI IECHYD A DIOGELWCH

DERBYNIWYD

Drafft o'r Polisi Iechyd a Diogelwch gan Reolwr Interim yr Adran Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd (COU1617-089).

NODWYD

1. Cafodd Polisi'r Brifysgol ar Iechyd a Diogelwch ei ddiwygio'n unol â'r amserlen ddwy flynedd y cytunwyd arni pan gafodd y polisi gwreiddiol ei gymeradwyo ym mis Mawrth 2015. Roedd y broses wedi ceisio crynhoi'r Polisi cyfredol, gan roi sylw i adborth a gafwyd gan nifer o randdeiliaid o bob rhan o'r Brifysgol.

2. Ystyriwyd y Polisi Iechyd a Diogelwch diwygiedig gan y Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd ar 17 Chwefror 2017, lle'r argymhellodd yr aelodau a dylid ei gymeradwyo gan y Cyngor.

CYNGHORWYD

3. Y dylid cymeradwyo drafft y Polisi Iechyd a Diogelwch, yn amodol ar fân gywiriadau teipio (**GWEITHREDU:** Rheolwr Interim Iechyd a Diogelwch).

88. PENODIADAU ER ANRHYDEDD A PHENODIADAU LLYWODRAETHOL

1. Penodi Canghellor

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU1617-090).

NODWYD

1. Ar 17 Chwefror 2017, penderfynodd y Cyngor i wahanu'n llwyr swyddogaethau'r Canghellor a Chadeirydd y Cyngor pan ddaw tymor Syr Emyr Parry Jones i ben ar 31 Rhagfyr 2017. Yn unol â'r penderfyniad hwn, dechreuwyd ar y drefn o benodi Canghellor newydd y Brifysgol ar 20 Chwefror 2017, a rhoddwyd disgrifiad y swyddogaeth ar wefan lywodraethol y Brifysgol a'i gylchredeg yn eang. Gwahoddwyd enwebiadau erbyn 03 Mawrth 2017.

2. Ar 24 Mawrth 2017, cafodd y Pwyllgor Dewis ei gynnull i ystyried yr enwebiadau a ddaeth i law. Roedd yr adroddiad yn cyflwyno'r drefn a ddilynwyd, ac yn rhoi enw'r unigolyn yr argymhellir ei benodi. Eglurwyd fod yr Is-Ganghellor Dros-dro yn aelod o'r Pwyllgor Dewis, yn ogystal â'r rhai a restrwyd yn yr adroddiad.

CYNGHORWYD

3. Y dylid gwahodd y Gwir Anrhydeddus Arglwydd Thomas o Gwmgïedd i dderbyn ei benodi'n Ganghellor y Brifysgol am gyfnod cychwynnol o bum mlynedd o 01 Ionawr 2018 (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).

2. Penodi Cadeirydd y Cyngor

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU1617-091).

NODWYD

1. Y Pwyllgor Enwebiadau oedd yn gyfrifol am y drefn o benodi Cadeirydd nesaf y Cyngor. Cafodd Cyfarfod Arbennig o'r Pwyllgor hwnnw ei gynnal ar 24 Mawrth 2017 i roi ystyriaeth bellach i'r drefn benodi ac i wneud argymelliadau i'r Cyngor. Yn unol ag arfer da, cadeiriwyd y cyfarfod hwnnw gan Ddirprwy Gadeirydd y Cyngor.

2. Roedd yr adroddiad yn cynnig trefn benodi drwyadl ac agored - a fyddai'n cynnwys hysbysebu'r swydd yn eang - yn ogystal â rhoi manyleb unigolyn gyffredinol yn y swydd-ddisgrifiad.

3. Yng nghyswllt Cynllun Iaith Gymraeg y Brifysgol, roedd y Pwyllgor Enwebiadau wedi ystyried y dyletswyddau a'r cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â'r swydd, a'r nifer ymhlith y tîm (a oedd yn y cyd-destun hwn yn cynnwys Dirprwy Gadeirydd y Cyngor, yr Is-Ganghellor, a Chlerc y Cyngor) a fedrai'r Gymraeg. Roedd y Pwyllgor Enwebiadau'n argymell felly y dylai'r gallu i gyfathrebu a gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg fod yn un o'r meini prawf a ddefnyddir ar gyfer sgorio'r ymgeiswyr.

CYNGHORWYD

4. Cymeradwyo'r drefn a'r 'Disgrifiad Swydd' a argymhellwyd gan y Pwyllgor Enwebiadau, yn amodol ar newid brawddeg gyntaf 'Profiad o Gadeirio' yn yr adran 'Nodweddion Personol' fel hyn: ''Profiad profadwy o Gadeirio ac arwain cyfarfodydd ar y lefel uchaf ...'' (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).

3. Penodi Aelodau Annibynnol ar y Cyngor a'i is-bwyllgorau

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU1617-092).

NODWYD

1. Cyfarfu'r Pwyllgor Enwebiadau ar 17 Chwefror 2017 i ystyried lleoedd gwag ar hyn o bryd ac ar fin agor ar gyfer aelodau Annibynnol i wasanaethu ar y Cyngor a'i is-bwyllgorau. Tynnwyd sylw aelodau'r Cyngor at leoedd gwag ar yr is-bwyllgorau ar 29 Tachwedd 2016, a gofynnwyd am fynegiannau o ddiddordeb erbyn 31 Ionawr 2017.

2. Ers 04 Awst 2014, cafodd tymor o chwe blynedd man pellaf ei gyflwyno ar gyfer yr holl aelodau annibynnol newydd yn gwasanaethu ar y Cyngor. Ond, cytunodd y Cyngor ar 'hawliau tadcu' ar 24 Mehefin 2013, lle y gellid ailbenodi rhai a oedd eisoes yn gwasanaethu ar y Cyngor ar y pryd am dymor pellach tan eu bod wedi gwasanaethu am uchafswm o 10 mlynedd.

3. Roedd Janet Davies wedi rhoi arddeall nad oedd yn dymuno cael ei hystyried i'w hailbenodi i'r corff llywodraethu pan ddeuai ei thymor i ben ar 31 Rhagfyr 2017. Roedd y Pwyllgor Enwebiadau wedi argymell felly y dylai'r Cyngor ymhen amser ystyried a oedd am lenwi'r lle gwag hwn yng nghyd-destun unrhyw benderfyniad a fydd yn cael ei wneud ynghylch maint a chyfansoddiad y corff llywodraethu (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).

CYNGHORWYD

4. Ailbenodi'r canlynol i'r Cyngor (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol):

    1. Anne Davies am ail dymor, sef tymor olaf, o dair blynedd, yn dechrau ar 01 Awst, 2017;

    2. Richard John am ail dymor, sef tymor olaf, o dair blynedd, yn dechrau ar 01 Awst, 2017; ac

    3. Ian MacEachern am ail dymor, sef tymor olaf, o dair blynedd, yn dechrau ar 01 Awst, 2017.

5. Penodi neu ailbenodi'r canlynol i wasanaethu ar yr is-bwyllgorau dan sylw (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol):

    1. Pwyllgor Archwilio a Risg

        1. Hugh Child, am dymor o un flwyddyn yn dechrau ar 01 Awst 2017, gan dderbyn ei fod wedi sicrhau Cadeirydd y Cyngor y byddai'n bresennol yng nghyfarfodydd y AR yn y dyfodol; a

        2. Robert Williams, am dymor o dair blynedd, yn dechrau ar 01 Awst, 2017.

    2. Pwyllgor Siarter

        Ian MacEachern am dymor o dair blynedd, yn dechrau ar 01 Awst, 2017.

    3. Pwyllgor Graddau er Anrhydedd

        1. Elizabeth France, am y cyfnod tan 31 Rhagfyr 2017; a

2. Janet Davies, am y cyfnod tan 31 Rhagfyr 2017.

4. Pwyllgor Cyllid a Strategaeth

Ian MacEachern am dymor o dair blynedd, yn dechrau ar 01 Awst, 2017.

5. Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd

Anne Davies, yn Gadeirydd, am dymor o dair blynedd yn dechrau ar 01 Awst, 2017.

6. Grŵp Ymgynghorol ar Brosiectau o Sylwedd

1. Ian MacEachern am dymor o dair blynedd yn dechrau ar 01 Awst, 2017; a

2. Dr Glyn Rowlands, am y cyfnod tan 31 Rhagfyr 2017.

7. Pwyllgor Enwebiadau

Gwerfyl Pierce Jones, am y cyfnod tan 31 Rhagfyr 2019.

8. Pwyllgor Datblygu Proffesiynol, Staffio a Chydraddoldeb

1. Gwerfyl Pierce Jones, am y cyfnod tan 31 Rhagfyr 2019; ac

2. Annwen Isaac, am dymor o dair blynedd yn dechrau ar 01 Awst 2017.

9. Moeseg Ymchwil - panelau'r Celfyddydau a'r Dyniaethau / Gwyddorau Cymdeithasol

Richard John, am dymor o dair blynedd yn dechrau ar 01 Awst 2017.

10. Moeseg Ymchwil - panel y Gwyddorau

Dr Alan Axford, am dymor o dair blynedd yn dechrau ar 01 Awst 2017.

11. Pwyllgor Diswyddiadau

Gwerfyl Pierce Jones, yn Gadeirydd, am y cyfnod tan 31 Rhagfyr 2019.

89. COD YMARFER UNDEB Y MYFYRWYR

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU1617-093).

NODWYD

1. Rhaid i PA gael Cod Ymarfer yn ei le i ddangos yn glir sut y mae'n cyflawni ei dyletswyddau o dan Ddeddf Addysg 1994 Rhan II yng nghyswllt unrhyw Undeb Myfyrwyr yn y Brifysgol.

2. Yn dilyn trafodaeth rhwng Ysgrifennydd y Brifysgol a Phrif Weithredwr UMAber, roedd nifer o fân newidiadau'n cael eu cynnig o'r Cod Ymarfer cyfredol. Cafodd newidiadau pellach eu hawgrymu gan Fwrdd Ymddiriedolwyr UMAber.

3. Cafodd yr holl newidiadau arfaethedig eu hystyried gan y Pwyllgor Cyllid a Strategaeth ar 24 Mawrth 2017, lle'r argymhellodd yr aelodau a dylai'r Cyngor eu cymeradwyo, yn amodol ar un neu ddau o fân ychwanegiadau i'r testun.

CYNGHORWYD

4. Y dylid cymeradwyo Cod Ymarfer diwygiedig Undeb y Myfyrwyr (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).

90. ADRODDIAD MONITRO'R CYNLLUN IAITH

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ganolfan Gwasanaethau'r Gymraeg (COU1617-094).

NODWYD

1. Yn unol â gofynion Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, Comisiynydd yr Iaith sy'n gyfrifol yn awr am gymeradwyo a monitro Cynlluniau Iaith Gymraeg. Disgwylir i brifysgolion yng Nghymru gyflwyno adroddiadau monitro blynyddol i'r Comisiynydd ym Mawrth/Ebrill i adrodd ynglŷn â'u cydymffurfiaeth â'u Cynlluniau Iaith y cytunwyd arnynt. Seiliwyd yr adroddiad a gyflwynwyd ar y cyfnod Medi 2015 - Awst 2016.

2. Ystyriwyd yr Adroddiad drafft gan Bwyllgor Strategaeth y Gymraeg ar 10 Chwefror 2017, a chan y Senedd ar 22 Mawrth 2017. Argymhellodd y ddau bwyllgor y dylai'r Cyngor ei gymeradwyo, yn amodol ar fân ddiwygiadau.

CYNGHORWYD

3. Cymeradwyo'r Adroddiad Monitro Blynyddol, yn amodol ar newid yr ail bwynt bwled o dan 'Pwyllgorau' yn y 'Rhagarweiniad' fel hyn: "Sefydlwyd Bwrdd Pantycelyn i gyflawni bwriad y Cyngor i symud ymlaen â'r prosiect i ailagor Pantycelyn erbyn mis Medi 2019" (**GWEITHREDU:** Rheolwr Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg).

91. CRONFA ADDYSGIADOL DR DANIEL WILLIAMS

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU1617-095).

NODWYD

1. Mae cyfansoddiad gwreiddiol Cronfa Addysgiadol Dr Daniel Williams yn cynnwys darpariaeth ar gyfer ymddiriedolwr a benodir "gan Gyngor Coleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth". Nid yw'n glir pam y gwnaed darpariaeth o'r fath yn y cyfansoddiad, ac nid yw'r Brifysgol wedi gweithredu ar y ddarpariaeth ers rhai blynyddoedd.

2. Cysylltodd ymddiriedolwyr y Gronfa ag Ysgrifennydd y Brifysgol i gynnig y gallai fod yn briodol yn awr i ddileu'r ddarpariaeth hon yn ffurfiol. Ond, er mwyn symud y cynnig hwn yn ei flaen, bydd angen i Gyngor PA gadarnhau ei fod yn cytuno, a bydd hyn yn ei dro yn cael ei gyflwyno i'r Comisiwn Elusennau.

CYNGHORWYD

3. Y dylai Ysgrifennydd y Brifysgol ysgrifennu at ymddiriedolwyr Cronfa Addysgiadol Dr Daniel Williams i gadarnhau bod y Cyngor yn cytuno i ddileu'r ddarpariaeth am ymddiriedolwr a benodir gan PA (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).

92. CYNLLUN GWEITHREDU CYDRADDOLDEB

DERBYNIWYD

Cyflwyniad gan y Cyfarwyddwr Cydraddoldeb, yn cynnwys Cynllun Strategol Gweithredu Cydraddoldeb wedi'i ddiweddaru (COU1617-096).

NODWYD

1. Yn unol â gofynion statudol Deddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Gyhoeddus 2011 Cymru, mae'n rhaid i'r Brifysgol gyhoeddi adroddiad blynyddol yn manylu ar y modd y mae'n cydymffurfio â'r dyletswyddau hyn. Cafodd yr adroddiad blynyddol am y cyfnod 2015-16 ei gymeradwyo gan Gadeirydd y Cyngor ar ran y corff llywodraethu. Adroddwyd hyn yn ffurfiol mewn man arall ar agenda'r cyfarfod presennol.

2. Cafodd fersiwn ddiweddaraf Cynllun Gweithredu Strategol Cydraddoldeb (2016-20) ei ddosbarthu er mwyn trafod yn rhan o Adroddiad y Cyfarwyddwr Cydraddoldeb. Roedd y Cynllun Gweithredu yn cynnwys manylion diweddaraf ar y datblygiadau wrth anelu am yr amcanion y cytunwyd arnynt yn rhan o'r Cynllun Gweithredu Strategol. Cafodd fersiwn gynharach ei hystyried gan y Pwyllgor Datblygu Proffesiynol, Staffio a Chydraddoldeb ar 10 Chwefror 2017, a chan y Senedd ar 22 Mawrth 2017.

93. ADRODDIAD LLYWYDD UNDEB MYFYRWYR PRIFYSGOL ABERYSTWYTH

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Lywydd Undeb y Myfyrwyr (COU1617-097).

NODWYD

Rhoddai'r adroddiad fanylion diweddaraf y datblygiadau yn Undeb y Myfyrwyr ers cyfarfod diwethaf Cyngor y Brifysgol. Roedd y manylion yn cynnwys llwyddiant yr Undeb yn ennill categori Undeb Myfyrwyr Addysg Uwch y Flwyddyn yng ngwobrau Cenedlaethol NUS Cymru.

94. CRYNODEB O'R GOFRESTR RISG CORFFORAETHOL

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cynllunio (COU1617-098).

NODWYD

Rhoddai'r adroddiad grynodeb o'r risgiau arwyddocaol o'r Gofrestr Risg Corfforaethol.

95. PENDERFYNIADAU A WNAED RHWNG CYFARFODYDD

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU1617-099).

NODWYD

1. Manylai'r adroddiad ar yr adegau ers cyfarfod diwethaf y Cyngor y defnyddiodd y Cadeirydd y Pwerau Gweithredol y darperir ar eu cyfer gan Reol Sefydlog 6.11.

2. Y materion a gymeradwywyd trwy Gamau Gweithredol oedd:

    1. cyflwyno'r rhagolygon ariannol pum mlynedd i'r Cyngor Cyllido; ac

    2. Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol y Brifysgol am y cyfnod 2015-16.

96. ADRODDIADAU BLYNYDDOL

1. Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Gydlynydd Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd (COU1617-100).

NODWYD

Cafodd Adroddiad Blynyddol Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd 2016 ei baratoi i roi crynodeb o'r prif weithgareddau'n ymwneud ag iechyd, diogelwch a'r amgylchedd yn y Brifysgol yn y flwyddyn a aeth heibio. Cafodd yr Adroddiad Blynyddol ei ystyried a'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd ar 17 Chwefror 2017.

2. Materion a godwyd o dan y polisïau Gwrth-lwgrwobrwyo, Camymddygiad ac Afreoleidd-dra; a Datgelu Gwybodaeth Gyhoeddus

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Dirprwy Is-Ganghellor (Prif Swyddog Gweithredu) (COU1617-101).

NODWYD

Nodwyd yn yr adroddiad na fu achos yn gysylltiedig â Gwrth-lwgrwobrwyo, Camymddygiad ac Afreoleidd-dra; a Datgelu Gwybodaeth Gyhoeddus yn ystod 2015-16. Cafodd yr adroddiad ei ystyried gan y Pwyllgor Archwilio a Risg yn ei gyfarfod ar 10 Mawrth 2017, lle mynnodd yr aelodau bod y Brifysgol yn cymryd camau i godi ymwybyddiaeth o'r polisïau hyn.

3. Materion yn ymwneud â staffio

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ddirprwy Gyfarwyddwr Adnoddau Dynol (COU1617-102).

NODWYD

Rhoddai'r adroddiad wybodaeth ynglŷn ag achosion yn gysylltiedig â pherthynas â gweithwyr cyflogedig, yn ôl y polisïau perthnasol. Cafodd yr adroddiad ei ystyried gan y Pwyllgor Datblygu Proffesiynol, Staffio a Chydraddoldeb ar 10 Mawrth 2017.

4. Apeliadau a Chwynion Academaidd

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Swyddfa Ansawdd Academaidd a Chofnodion (SEN1617-103).

NODWYD

Roedd yr adroddiad cyfansawdd yn rhoi gwybodaeth ynglŷn ag 'Apeliadau Israddedigion ac Uwchraddedigion 2016', a 'Chwynion Myfyrwyr' Ionawr - Rhagfyr 2016'. Cafodd yr adroddiadau eu hystyried gan y Bwrdd Academaidd yn ei gyfarfod ar 08 Mawrth 2017, a chan y Senedd ar 22 Mawrth 2017.

97. ADRODDIADAU O BWYLLGORAU

DERBYNIWYD

Adroddiad cyfansawdd yn cynnwys yr adroddiadau canlynol (COU1617-104):

1. Pwyllgor Archwilio a Risg (10 Mawrth 2017);

2. Y Senedd (22 Mawrth 2017);

3. Pwyllgor Cyllid a Strategaeth (24 Mawrth 2017);

4. Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd (17 Chwefror 2017);

5. Pwyllgor Datblygu Proffesiynol, Staffio a Chydraddoldeb (10 Mawrth 2017);

6. Pwyllgor Strategaeth y Gymraeg (10 Mawrth 2017);

7. Pwyllgor Siarter (16 Chwefror 2017);

8. Pwyllgor Dewis Canghellor (24 Mawrth 2017);

9. Pwyllgor Enwebiadau (17 Chwefror 2017);

10. Pwyllgor Enwebiadau - Cyfarfod Arbennig (24 Mawrth 2017); a

11. Grŵp Gweithredol y Brifysgol (24 Ionawr a 28 Chwefror 2017).

NODWYD

12. Pwyllgor Archwilio a Risg (10 Mawrth 2017);

    Roedd y Pwyllgor wedi cefnogi'r dull arfaethedig o gaffael archwiliad a fyddai'n cynnwys prosesau caffael ar gyfer archwiliad mewnol, archwiliad allanol a gwaith treth ar yr un pryd.

13. Yr adroddiadau a dderbyniwyd o'r is-bwyllgorau eraill.